Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Rhaglen Twf Swyddi Cymru +: hysbysiad preifatrwydd ar gyfer cyflogwyr

Yr hyn a wnawn gyda'r wybodaeth gysylltiedig a gawn.

Cyhoeddwyd gyntaf: 7 Gorffennaf 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 7 Gorffennaf 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

Cyflwyniad

Pa wybodaeth bersonol amdanoch chi sy'n cael ei chasglu a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru?

At ba ddiben bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth?

Am ba hyd fydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth bersonol?

Gyda phwy y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol?

Eich hawliau a dewisiadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyflwyniad

Mae'n orfodol bod 'hysbysiad preifatrwydd ar gyfer cyflogwyr y Rhaglen Twf Swyddi Cymru +' yn cael ei weld gan bob cyflogwr sy'n ymwneud â'r rhaglen, p'un a yw'n cynnig profiad gwaith neu gyfleoedd gwaith.

Ariennir Twf Swyddi Cymru + yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac fe'i hariennir yn rhannol drwy weithrediadau a gymeradwywyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (drwy Lywodraeth Cymru). Mae eich lle yn y rhaglen yn dibynnu arnoch yn darparu data personol. Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y data hyn a byddwn yn eu prosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a freiniwyd i ni. Y sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni i brosesu eich data personol yw erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol a gweinyddu a monitro'r cyllid a ddarparwn.

Pa wybodaeth bersonol amdanoch chi sy'n cael ei chasglu a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru?

Caiff eich data personol eu casglu oddi wrthych gan gontractwyr a'u hanfon i Lywodraeth Cymru.

Fel y'i diffinnir yn y Rheoliad Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data, eich data personol yw:

- enw'r cyflogwr
- maint y cyflogwr
- cyfeiriad y cyflogwr
- enw cyntaf y cyswllt ar gyfer y cyflogwr
- cyfenw y cyswllt ar gyfer y cyflogwr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- rôl y cyswllt ar gyfer y cyflogwr
- gwybodaeth adnabod y cyswllt ar gyfer y cyflogwr
- e-bost y cyswllt ar gyfer y cyflogwr
- rhif ffôn y cyswllt ar gyfer y cyflogwr

At ba ddiben bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth?

Mae ymgysylltu â'r rhaglen yn wirfoddol.

Fodd bynnag, os ydych yn ymgysylltu â'r rhaglen, rhaid i chi ddarparu'r data priodol. Byddwn yn defnyddio eich data personol:

- i gysylltu â chi ynglŷn â'ch profiad o raglen Twf Swyddi Cymru + Llywodraeth Cymru. Er mwyn gwneud hyn, bydd eich data personol yn cael eu rhannu ag ymchwilwyr trydydd parti a benodir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n gweithredu ar ei rhan. Bydd asiantaethau ymchwil a sefydliadau academaidd yn gwneud gwaith ymchwil at ddibenion gwerthuso ac ystadegol yn unig a byddant yn cysylltu â chi'n uniongyrchol. Bydd yr adborth hwn yn ein galluogi i ddeall yn well sut mae'r rhaglen yn gweithredu ac a ellir ei gwella.
- ar gyfer ariannu, cynllunio a datblygu polisi yn ogystal â monitro canlyniadau.
- yn ogystal, bydd eich data'n cael eu defnyddio mewn ystadegau ac ymchwil swyddogol. Mae hyn yn cynnwys data personol a data nad yw'n bersonol. Mae unrhyw ddata personol a ddefnyddir yn ddienw ac ni ellir adnabod unigolion yn y cyhoeddiadau hyn. Fel rhan o'r gwerthusiadau hyn, gallant hefyd asesu effaith rhaglen ar y dysgwr unigol yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi gwybodaeth a diweddariadau i chi sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch cyfranogiad yn rhaglen Twf Swyddi Cymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Am ba hyd fydd Llywodraeth Cymru yn cadw eich gwybodaeth bersonol?

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod o ddeng mlynedd yn unol â Pholisi Cadw Gwybodaeth Llywodraeth Cymru ac i fodloni'r gofynion ar gyfer cyllid yr Undeb Ewropeaidd. Ar ôl yr amser hwn bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei dileu.

Gyda phwy y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth bersonol?

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich data gyda'r canlynol:

- Cyrff llywodraethu mewnol ac allanol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i werthuso effaith rhaglenni dysgu.
- Cwmnïau ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiadau o raglenni - bydd gennych bob amser yr opsiwn i ddewis cymryd rhan yn yr arolwg neu beidio os cysylltir â chi.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), i gyhoeddi ystadegau cyfanredol sy'n ymwneud â'r economi, y boblogaeth a chymdeithas ar lefel y DU, Cymru ac yn lleol. Bydd yr holl waith ystadegol ac ymchwil yn cynnwys gwiriadau i sicrhau nad yw canlyniadau'r dadansoddiad yn datgelu hunaniaethau.
- Adran Addysg Llywodraeth y DU, i nodi a dadansoddi cyrchfannau dysgwyr o ran dysgu pellach a/neu gyflogaeth ar ôl iddynt adael y byd addysg. Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r data cysylltiedig hwn yn fewnol a bydd hefyd yn ei rannu â chyrff cyhoeddus fel Estyn, Cymwysterau Cymru a CCAUC neu sefydliadau ymchwil trydydd parti megis prifysgolion neu gwmnïau ymchwil cymdeithasol ac economaidd annibynnol.
- Gyrfa Cymru i gyflawni ei amcan o ddarparu cymorth i grwpiau penodol o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

unigolion sydd mewn perygl mawr o ymddieithrio oddi wrth addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Mae rhannu data gyda chontractwyr trydydd parti bob amser yn cael ei reoli gan ofynion caeth cyfrinachedd a diogelwch, ac mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb rhannu data ffurfiol ar waith pan fyddwn yn rhannu data eich gyda thrydydd parti. Rhaid i gontractwyr sy'n cyflawni ymchwil a gwerthusiadau ar ein rhan gydymffurfio â Chod Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a rhaid i'r trydydd partïon lofnodi cytundeb cyfrinachedd mewn perthynas â'ch data i ddangos eu bod yn gweithredu gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth boddhaol, mai dim ond mewn ffyrdd rhagnodedig y byddant yn defnyddio'ch gwybodaeth ac y byddant yn dinistrio eu copïau o'ch data pan nad oes eu hangen mwyach.

Eich hawliau a dewisiadau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau isod:

- cael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru ac i'w gweld
- gofyn inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- gofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- (o dan rai amgylchiadau) gofyn inni drosglwyddo eich data i gorff arall
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru drwy'r manylion isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ebost: **DataProtectionOfficer@llyw.cymru**

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer/Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0165 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: **www.ico.org.uk** (Saesneg yn unig)

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/rhaglen-twf-swyddi-cymru-hysbysiad-preifatrwydd-ar-gyfer-cyflogwyr-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.